# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear Cymru

Gaeaf 1997

AM DDIM (neu gyfraniad)



# Trident – peiriant lladd £33 biliwn Prydain

*TU FEWN:*


***Newyddion diweddara – Greenham – gweithredu yn y Steddfod – Gwaed yn Llandudno – Windscale 1957 – ... a mwy***


Mae'r system arfau niwclear Trident yn awr yn cynnwys tair llong danfor gomisiynedig bob un â'r gallu i gario 96 ergyd niwclear ar 16 taflegryn. Bwriedir comisiynu'r bedwaredd long danfor Trident y flwyddyn nesaf. Cost rhedeg system niwclear Trident bob blwyddyn yw £1.5 mil o filiynau. Mae gan bob un o'r pedair llong danfor bwer dinistriol posibl 640 gwaith yn fwy na'r bom a ddinistriodd Hiroshima.

## '... yn farwol o hyd, yn gostus o hyd, yn anfoesol o hyd, yma o hyd




Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Llafur Newydd yn cadw hen addewidion y Toriaid

Ym mis Mehefin, dywedodd John Spellar, Is-Ysgrifennydd Seneddol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, wrth y Senedd na châi rhagor o daflegrau eu prynu nes cwblhau'r Arolwg Amddiffyn Strategol. Ni ddisgwylir i'r Arolwg hwnnw gael ei gwblhau tan y gwanwyn.

Yr hydref yma, cyhoeddodd Llywodraeth Lafur Newydd Tony Blair ei bod yn mynd i wario £150 miliwn arall ar saith taflegryn Trident ychwanegol. Mae Llefarydd Amddiffyn Plaid Genedlaethol yr Alban, Colin Campbell, yn galw ar y Prif Weinidog i egluro'r croesddweud hwn ac wedi cynnig rhoi rhestr i'r Llywodraeth o feysydd lle byddai'n well gwario'r arian hwn.

Hyd yn oed os bydd y Llywodraeth yn anrhydeddu ei addewid Maniffesto drwy leihau'r nifer o daflegrau ar bob llong danfor Trident o 50, fyddai'r byd ddim yn ddiogelach lle, a bydd y bygythiad i'r amgylchedd a iechyd a achosir gan gynhyrchu, cludo a storio'r arfau hyn yn llawn cymaint. Dywedir, fel mae pethau ar hyn o bryd, na fydd negydu amlochrog (rhyngwladol) ar ddiarfogi niwclear yn cychwyn tan 2007. Mae'r rheini ohonom sy'n ymgyrchu dros ddyfodol di-niwclear i'n plant yn arswydo wrth sylweddoli y gallem, ymhen deng mlynedd arall, ddal i fod â mwy nag 20,000 o ergydion niwclear ar y blaned – gallu ffrwydrol cyfwerth â hanner miliwn Hiroshima.

## 'Dilëwch Trident' medd Cymru

Rhoddodd arolwg barn 'Gallup' a gomisiynwyd gan yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear dragwyddol heol i'r Llywodraeth Lafur arwain y ffordd a chymryd camau dewr a gwreiddiol i waredu'r Byd o arfau niwclear. Dangosodd yr Arolwg bod 61% o bobl Cymru bellach yn cytuno y byddai'n well o ran diogelwch ein cymuned pe NA bai gan Brydain arfau niwclear. Mae 65% o bobl Cymru yn cytuno bod gwario £1.5 biliwn y flwyddyn i gynnal arfau niwclear Prydain yn wastraff adnoddau. Yn ystod rhaglen 'codi'r ffôn' hanner-awr ddiweddar ar Radio Cymru, doedd hi ddim yn bosib dod o hyd i neb i gefnogi'n gyhoeddus wario'r arian yma ar adeg pan mae gwasanaethau addysg, cymdeithasol a iechyd yng Nghymru yn byw ar friwsion.

**GWEITHREDU**

*Sgrifennwch ar eich AS, da chi. Dywedwch wrthyn nhw pam rydych chi'n credu bod rhaid cael diarfogi niwclear. Dywedwch wrthyn nhw am yr arolwg barn (mwy o fanylion gan CND Cymru) a mynegwch eich gobaith y byddant yn cynrychioli eich safbwynt yn y Senedd.*

*Sgrifennwch at Tony Blair: Mae'r Swyddfa Dramor wedi addo 'momentwm newydd ar reoli arfau a diarfogi' – gofynnwch iddo fynd â'r maen i'r wal drwy chwarae rhan fwy gweithgar yn y broses ddiarfogi ryngwladol.*

*"Lobby" – Llythyr Newyddion Seneddol CND Prydeinig, yn cynnig gwybodaeth a syniadau i'w defnyddio wrth bwyso ar eich AS a'r Llywodraeth. Ar gael yn rhad ac am ddim gan: Justine Cole, CND (0171 700 2393) 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.*

# Un flynedd ar ddeg mewn carchar ar ei ben ei hun i Vanunu: Gwylnos ryngwladol yn Israel

Ymunodd un ar bymtheg gweithredydd o bedwar ban y byd ag Israeliaid am gyfres wythnos o hyd o wylnosau i fynnu rhyddhau'r datgelydd-cyfrinachau gwrth-niwclear Mordechai Vanunu. Ym 1986, herwgipiwyd Vanunu gan heddlu cudd Israel a'i gyhuddo o deyrn-fradwraeth ac ysbïo am roi gwybodaeth am raglen gynhyrchu arfau niwclear Israel i bapur-newydd y Sunday Times.

O'r 24ain i'r 30ain o Fedi safodd gwylnoswyr y tu allan i glwydi Carchar Ashkelon lle mae Vanunu wedi treulio'r un flynedd ar ddeg ddiwethaf ar ei ben ei hun mewn cell 2 x 3 metr o faint. Cynhaliwyd gwylnosau ar safleoedd eraill perthnasol i'r achos hefyd: y Gweinyddiaethau Cyfiawnder ac Amddiffyn, llysgenadaethau a chartrefi'r Prif Weinidog a'r Arlywydd.

Cynhaliwyd y gwrthdystiad gwrth-niwclear mwyaf yn hanes Israel wrth gyfleuster niwclear Dimona yn Anialwch Negev ar Fedi'r 27ain.

Cafwyd ymateb dig gan lawer o Israeliaid ar y stryd. Mae propaganda'r llywodraeth wedi sicrhau y gwelir Vanunu fel 'ysbïwr-atom' a bradwr, ac eto, teimlai rhai unigolion bod 11 mlynedd yn ddigon ac y dylid ei ryddhau. Gwnaeth rhai arwyddion heddwch wrth fynd heibio; cafwyd bodiau i fyny ac arwyddion heddwch gan yrrwyr yn gyrru heibio, a diolch i'r gwylnoswyr, gydag un dyn yn dweud wrthyn nhw mai Vanunu yw'r dyn mwyaf yn Israel, ei fod yn arwr.

Perfformiodd y banc roc U2 gyngerdd ar unfed ar ddeg mlwyddiant carcharu Vanunu. Apeliodd Bono, y prif ganwr, yn huawdl wrth y 40,000 oedd wedi ymgasglu yno, a chafodd ei eiriau sylw helaeth yn y cyfryngau y diwrnod canlynol.

*Llawer o ddiolch i Felice Cohen Joppa.*

**GWEITHREDU**

*Danfonwch lythyron o gefnogaeth at Mordechai Vanunu, Carchar Ashkelon, Israel, os gwelwch yn dda.*

*Mae mwy o wybodaeth ar gael gan CND Cymru a gan yr Ymgyrch i Ryddhau Vanunu a dros Ddwyrain Canol Di-niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL.*



# Y Dewis

Paham y terfysga'r cenhedloedd
O ddechreuad y byd hyd yn awr,
Gan bentyrru nerth i'w byddinoedd
I daro'u gelynion i lawr?

Fe'u lluniwyd gan Arglwydd y cread
Bob cenedl o'i chyfoeth ei hun
I gyfrannu ei dogn o gariad
I fywyd hen deulu dyn.

A oes obaith i wledydd y ddaear
Droi cefn ar eu balchder mewn pryd?
Ai disgwyl sydd raid am ddydd galar
O'r bom fydd yn difa'r byd?

***Diolch i Gareth Tilsli***
***Mab diweddar Gwilym Tilsli***



# Cyfarfod Blynddol CND Cymru, 20fed Medi 1997

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol CND Cymru eleni yn y Deml Heddwch, Caerdydd, gyda nifer dda yn bresennol. Cyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod agored hynod ddiddorol. Siaradodd Molly Scott Cato o'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel am effeithiau technoleg niwclear sifil a milwrol ar yr amgylchedd a phwysigrwydd menywod mewn ymgyrchu. Awgrymodd Rhodri Glyn Thomas o Blaid Cymru ffordd ymlaen i CND a mynegodd ei obaith y ceid gwell cynrychiolaeth ac atebolrwydd o fewn y Cynulliad newydd.

Yn y Cyfarfod Blynyddol, parhau wnaeth y drafodaeth am bosibiliadau ymgyrchu llwyddiannus dros fudiadau heddwch ac amgylchedd Cymru. Gofynnwyd mwy o gwestiynau nag a gafwyd o atebion yn ystod y drafodaeth, a chynigiwyd llawer o syniadau, yn cynnwys y syniad o lunio 'Datganiad Bwriad'. Gallai datganiad o'r fath gynnwys egwyddorion cyffredinol megis hawliau dynol, rhyddid gwybodaeth a Chymru amgylcheddol gynadadwy, ac fe'i cynigid i ymgeisyddion etholiad y Cynulliad i'w dderbyn ac i'r Cynulliad newydd i'w gefnogi.

Galwodd David Morris i gof y Rali gyntaf yn erbyn y Bom Niwclear yn Aberystwyth, 43 blynedd yn ôl, gan ein hatgoffa bod y byd heddiw yn llawer mwy peryglus nag ym 1954. Fe'n hanogodd i adnewyddu'r ymgyrch i wahardd arfau niwclear. Neilltuol o ddiddorol oedd clywed am lawnsio Grŵp Heddwch a Grŵp CND yn y Senedd Ewropeaidd yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a llawer o ddiolch i swyddogion newydd-eu-hethol CND Cymru.

**Cadeirydd: David Morris ASE**
**Is-gadeiryddion: Dave Andrews, Olwen Davies, Ray Davies a Rod Stallard.**
**Trysorydd: Jean Bryant**

**GWEITHREDU**

*Os oes gennych ddiddordeb yn y syniad o "Ddatganiad Bwriad", cysylltwch ag CND Cymru, os gwelwch yn dda.*

*Cynigiwyd y syniad o 'Fforwm Ddinesig' genedlaethol i Gymru, a fyddai'n gweithio ochr-yn-ochr â'r Cynulliad Cymreig, gan weithredu fel seinfwrdd a sianel i fynegi pryderon cymdeithasol. Mewn gwledydd eraill, mae fforymau o'r fath yn bod eisoes i gefnogi democratiaeth gyfranogol. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y syniad hwn, ffoniwch Ben Gregory (01222 626961) os gwelwch yn dda.*



# Perygl Hedfan Niwclear dros Dde Cymru

Mae gwybodaeth newydd a brawychus a ddaeth i ddwylo CND Cymru yn rhoi'r manylion am awyrennau sy'n cario defnyddiau niwclear ymbelydrol dros rannau poblog iawn o Dde Cymru. Bydd "Hediadau Defnyddiau Niwclear Arbennig" yn teithio yn ôl a blaen i UDA o Brize Norton (Swydd Rydychen) – gan hedfan dros y Cotswolds, Casgwent, cyrion gogleddol Casnewydd, Caerffili, cyrion gogleddol Caerdydd a Phort Talbot ac yna ar hyd Môr Hafren allan i Fôr Iweryddd. Mae'r rhain i fod yn gyfrinach.

Mae union natur y cargo yn dal i fod yn gyfrinach ond mae'r cynwysyddion a ddefnyddir yn rhai a ddefnyddir i gludo deunydd niwclear. Daw'r "Defnyddiau Niwclear Arbennig" o'r Sefydliadau Arfau Atomig yn naill ai Burghfield neu Aldermaston, neu maent ar eu ffordd yno. Ar sail y wybodaeth hon, tybir mai naill ai Plwtoniwm neu Wraniwm Brasach Iawn iawn yw'r deunydd.

Gallai damwain gydag un o'r awyrennau hyn anrheithio de Cymru a de-orllewin Llogr am byth. Oherwydd y dinistr y gellid ei achosi gan hediadau o'r fath, mae Llywodraeth yr UD wedi gwahardd cludo defnyddiau niwclear mewn awyrennau dros diriogaeth yr UD. Unwaith eto, mae'r 'braw-atalydd' niwclear a sefydlwyd i'n diogelu yn bygwth ein bywydau.

**GWEITHREDU**

*Os ydych yn byw yn ne Cymru, sgrifennwch at eich cynrychiolwyr etholedig gan ofyn iddynt pa fesurau cynllunio argyfwng sydd mewn bodolaeth i ddelio â chanlyniadau damwain o'r fath. Gofynnwch i'ch AS pam yr ystyrir bod yr hediadau hyn yn angenrheidiol. Danfonwch gopïau o unrhyw atebion at CND Cymru, os gwelwch yn dda. Gallwn helpu hefyd gyda llythyron yn gofyn cwestiynau pellach neu fwy o wybodaeth.*



■ Defnyddiau niwclear arbennig yn cael eu cludo i awyrennau VC10 yr Awyrlu yn Brize Norton 8 Awst 1997



■ Paratoi i lwytho'r defnyddiau



■ Yr awyren VC10 yn fuan ar ôl cychwyn ar ei thaith i Wersyll Awyrlu'r Unol Daleithau yn Dover, Delaware, UDA



## Caerdydd: Dinas Heddwch

Ym mis Hydref, roedd CND Cymru'n falch o gael ei gynrychioli pan ddadorchuddiwyd carreg gan Arglwydd Faer Caerdydd i gysegru'r brifddinas yn Brifddinas Heddwch Sri Chinmoy. Roedd y digwyddiad yn rhan o ymweliad â Chaerdydd gan Daith Redeg Heddwch Sri Chinmoy, taith gyfnewid fyd-eang gan ddynion, menywod a phlant o fwy na 70 o wledydd. Caiff fflam ei chario sydd yn fynegiant dynamig o ymrwymiad i ddelfryd heddwch byd-eang llu direfedi o bobl, yn athletwyr, rhedwyr, heddgarwyr ac unigolion o bob math o gefndir.

Mae Caerdydd bellach yn un o'r nifer o ganolbwyntiau o fewn gwahanol gymunedau ym mhedwar ban a gysegrwyd i heddwch yn 'flodau heddwch'. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Delta Afon Mekong, Puerto Rico, a'r ffin 200 km o hyd rhwng Rwsia a Norwy. Mae Caeredin, Leeds a Manceinion oll yn ddinasoedd heddwch yng ngwledydd Prydain. Mae'r Wyddfa yn fynydd heddwch ac mae Caerdydd yn awr yn brifddinas heddwch, ynghyd â Chaeredin, Ottawa, Canberra, Wellington, Reykjavik, Harare a Suva. Llongyfarchiadau, Caerdydd!

## Cassini, Blue Peter a threisio'r blaned Sadwrn

Er gwaethaf protest anferth ledled y byd, Rali yn y Tŷ Gwyn yn Washington, ac ymdrechion i gynnal parti ar y llain lawnsio yn Cape Canaveral, llwyddwyd i lawnsio'r chwiliedydd gofod Cassini gyda'i 72 pwys o blwtoniwm marwol yn mis Hydref. Fel yr adroddwyd yn flaenorol yn Heddwch, y plwtoniwm hwn yw'r swm mwyaf o ddeunydd a ddanfonwyd i'r gofod erioed. Wedi iddo cylchdroi Gwener ddwywaith, ffon-deflir Cassini ymlaen i Sadwrn, gan basio'n agos iawn i'r Ddaear ar ei ffordd nôl ym 1999. Beth yn y byd sydd ym meddwl NASA?

Roedd dwy Gymraes fechan, Hannah Jefferies ac Emily Freeman ymhlith y llu a foddodd Blue Peter â chwynion pan gynigiwyd trip i weld y lawnsio fel gwobr mewn cystadleuaeth. Siomedig oedd ateb y rhaglen i'w cwynion, sy'n awgrymu nad yw'n deall holl ymhlygiadau'r lawnsiad. Roedd hon yn wers drist i'r llu o blant a gafodd eu dadrithio gan fethiant llwyr Blue Peter i gydnabod eu bod efallai wedi gwneud camgymeriad, na bod unrhyw sail i'w pryderon.

Nododd Clymblaid Florida dros Heddwch a Chyfiawnder bod hanner oes plwtoniwm yn llawer hwy nag oes ddisgwyliedig unrhyw gerbyd gofod sy'n hysbys i'r ddynolryw, a gofyn: "Hyd yn oed os cyrhaeddith Cassini Sadwrn yn ddiogel, mae'n sicr o fethu rywbryd yn y dyfodol. Lle daw ei daith i ben? Pam ydyn ni'n llygru'r gofod yn gwbl ddianghenraid â deunydd ymbelydrol?" (Disgwylir i'r llong ofod lanio mewn môr ar y blaned Sadwrn – efallai y gallwn wedyn drefnu i efeillio'r môr hwn â Môr Iwerddon.)

**GWEITHREDU**
*Mwy o wybodaeth gan Glymblaid Florida dros Heddwch a Chyfiawnder, PO Box 90035, Gainsville FL 32607*

## Polisi gwrth-niwclear goleuedig yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wrthwynebu unrhyw gynllun i adeiladu gorsaf niwclear neu safle storio gwastraff niwclear yn y sir. Ym 1991, dileodd y Swyddfa Gymreig gymalau gwrth-niwclear yr oedd Gwynedd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Strwythur y Sir. Mae'r Awdurdod Unedol newydd yn awr yn ceisio ail-gynnwys y cymalau hynny. Mae'r datganiad diweddaraf gan y Cyngor yn dangos pa mor benderfynol yw aelodau'r Cyngor i gynrychioli teimladau eu cymunedau, a byddai'n rhoi sail statudol i'r Cyngor fedru gwrthwynebu unrhyw gynlluniau newydd a osodir ger bron gan y diwydiant niwclear. Atgoffodd y Cynghorydd Llew Huxley, aelod o Bwyllgor Polisi ac Adnoddau Gwynedd, y Cyngor o'r Datganiad Di-Niwclear Awdurdodau Lleol a wnaed 15 mlynedd yn ôl a mynegodd y gobaith na fyddai'r rheini mewn grym yn y Swyddfa Gymreig yn diystyru hawliau cymunedau lleol.

## Mynd â chyfrifydd geiger i'r gwely

Pan ofynnwyd iddo mewn cyflwyniad Gwyddoniaeth yn y Steddfod Genedlaethol, i amcangyfrif lefelau ymbelydredd yng nghylch y Bala, gwnaeth Alun Ellis, Rheolydd gorsaf ynni niwclear Trawsfynydd sy'n cael ei dadgomisiynu, i ni feddwl yn ddwys iawn. Datgelodd bod y corff dynol yn ffynhonnell ymbelydredd bwysig, a rhybuddio: "Os ydych yn poeni am effeithiau ymbelydredd, byddai'n well i chi gysgu ar eich pen eich hun".

## ASE Cymreig: gwleidydd o egwyddor

Lluniwyd côd chwe-phwynt gan bwyllgor gwaith y Blaid Lafur i 'sicrhau bod y Blaid Lafur Seneddol Ewropeaidd yn rhedeg yn llyfn" hyd at etholiadau



1999. Dim ond 4 rebel (Saeson bob un) y gofynnwyd iddyn nhw arwyddo'r côd.

Mae David Morris, ASE Canolbarth De Cymru, wedi dweud wrth y Western Mail bod "rhai pethau yn y Côd, megis ymrwymiad i lynu wrth addewid y Blaid i gadw'r braw-atalydd niwclear Trident" na allai dorri ei enw wrthynt.

## Cynghorau Lleol Cymru yn galw am weithredu ar ymbelydredd

Penderfynodd cyfarfod o Gynhadledd Cymru o Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol ym mis Medi y dylid mynegi'n gryf wrth y Llywodraeth a chyrff statudol ar fyrder y dylid cadw ymbelydredd artiffisial o ganlyniad i unrhyw weithgaredd cyn ised â phosib, a galwodd ar Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol i "ystyried peryglon presennol a phosibl ymbelydredd o waith llaw dyn i fywyd dynol".

## Trecŵn – chwit-chwatrwydd

Mae cyn-storfa arfau 504-erw y Llynges Frenhinol gyda 56 twnel storio tanddaearol ar y farchnad eto. Mae yn y 'smotyn du diweithdra' o gwmpas Abergwaun, Sir Benfro. Wedi llawer iawn o ddadlau a dyfalu, ymddengys yn debyg y troir ef yn barc busnes, canolfan hamdden a datblygiad tai, gan greu hyd at 250 o swyddi dros ddwy flynedd. Er iddo gau ym 1995, cynigiwyd y dylai'r safle fod yn ganolfan storio archifau, cynhyrchfan cyfrifiaduron ac awyrennau, yn barc thema ac yn safle prosesu gwastraff cemegol. Yn ystod 'Rhyfel Ynysoedd Falkland' ym 1982, roedd y lein reilffordd yn brysur ddydd a nos yn cludo arfau a oedd wedi cael eu storio yn y twneli. Aeth menywod o Wersyll Heddwch Breudeth ar sawl ymweliad â'r ddwy ochr i'r ffens o gwmpas Trecŵn. Mae'r safle wedi bod dan niwl o gyfrinachedd erioed, ac mae'n bwysig nawr chwythu'r cyfrinachedd ymaith a bod unrhyw gynlluniau ar gyfer dyfodol y safle o fudd i'r bobl leol a'u hamgylchedd.


## Darnau o Trident ar goll

Mae pwysau ar y llywodraeth i lawnsio ymchwiliad annibynnol llawn i sut yr aeth miloedd o gyfansoddrannau allweddol i'r system Trident ar goll. Ni alwyd yr heddlu i mewn i ymholi a dywed heddlu'r Weinyddiaeth

### Trawsfynydd

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi penderfynu peidio â chymeradwyo barn Magnox Electric nad oedd angen caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu Storfeydd Diogel yn yr Atomfa sy'n cael ei dadgomisiynu. Mae Magnox wedi penderfynu arbed arian iddo'i hun (a, fel y dywed yn garedig, i Awdurdod y Parc Cenedlaethol) drwy beidio â gwrthwynebu'r penderfyniad, ond mi fydd yn gosod cais cynllunio ger bron ar gyfer yr adeilad storio diogel ac ar gyfer addasu adeilad y pyllau.

**GWEITHREDU**
*Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Rod Stallard, CND Cymru*
Danfonwch eich barn at Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.



Amddiffyn wrthym na fwriedir erlyn neu ddisgyblu unrhyw weithwyr.

Mae'r darnau coll yn codi cwestiynau anferth am ddiogelwch Faslane a system arfau Trident. Dywedodd protestwyr yng Ngwersyll Heddwch Faslane fod y bwnglera "yn tanlinellu'r fath nonsens yw Trident" ac nad oedd yn eu synnu o gwbl. "Y peth am y llong danfor niwclear yw nad oes dim yn fater bach. Mae'r llong danfor yn beiriant reit fregus. Yr unig bryd y bydd Trident yn ddiogel fydd pan fyddwn wedi cael gwared ohono".

**GWEITHREDU**
*Cefnogaeth i'r Gwersyll Heddwch (ariannol, materol a moesol) a syniadau i atal yr awdurdodau rhag cael gwared o'r gwersyll at: Gwersyll Heddwch Faslane Shandon, Helensburgh, Dunbarton (01436) 820 901.*

### Plwtoniwm yn nannedd plant

Mae'r Cylchgrawn 'The Science of the Total Environment' wedi cyhoeddi gwaith ymchwil sy'n dangos y ceir plwtoniwm yn nannedd plant. Mae'r lefelau o lygredd yn dibynnu'n uniongyrchol ar bellter cartrefi'r plant o Sellafield.

### Operation Phoenix – Trident a Chymorth Tramor

Y nod yw cyplysu'r ddwy ymgyrch, i ddileu Trudent a chynyddu cymorth tramor, gan bwysleisio pwysigrwydd ailgyfeirio adnoddau o arfau i ateb anghenion dynol. Gofynnir i wirfoddolwyr i sgrifennu at y Prif Weinidog unwaith y flwyddyn am bum mlynedd yn annog y Llywodraeth i ddileu'r rhaglen Trident a chynyddu cymorth tramor i darged y CU o 0.7% o GDG.

**GWEITHREDU**
*Os yw hyn o ddiddordeb i chi, cysylltwch ag Alan Litherland, Operation Phoenix, Spring Hill, Nailsworth, Stroud, Swydd Gaerloyw GL6 0LU.*

### Pwy ddwedodd bod y byd yn lle mwy diogel y dyddiau hyn?

Er gwaetha'r ffaith ei bod wedi arwyddo'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (sydd â'r brif nod o atal datblygiad parhaus arfau niwclear newydd a "gwell"), mae'r UD yn adeiladu cyfleuster laser gwerth $1.2 biliwn yn labordy Lawrence Livermore. Dechreuodd cyfres o brofion "Is-gritigol" ym mis Mehefin, ac mae hon yn mynd i barhau. Mae'r profion hyn yn sicr yn groes i ysbryd y CGPC, os nad y geiriad manwl. Mae'r rhaglen hon yn costio mwy na £4 biliwn y flwyddyn. Bydd yr holl raglen tan 2010 wedi costio mwy na'r hyn a wariwyd ar adeiladu arfau niwclear newydd drwy gydol y Rhyfel Oer.

Cynyddwyd cyfanswm cyllideb y Pentagon am 1998 i $269 biliwn, i gynnwys prosiectau 'Star Wars' a thechnoleg laser i ddinistrio lloerennau gofod. Dyma dro arswydus arall yng nghynffon y ras arfau technoleg uchel sydd yn bygwth ein planed yn enw diogelwch. Chwedl John F. Kennedy, Arlywydd yr UD yn y chwe-degau, "Rhaid i'r ddynolryw roi terfyn ar ryfel, neu mi roith rhyfel derfyn ar y ddynolryw". Wrth gwrs, nid oedd hwnnw'n gwneud fel roedd yn dweud, ac nid yw ei olynwyr wedi dysgu dim yn y blynyddoedd er hynny.

*Mudiad Diarfogi'r Byd*

### Cynnydd mewn llygredd ymbelydrol ym Môr Iwerddon

Wrth i Brydain gyhoeddi ei bod yn mynd i atal gollwng ymbelydredd i'r môr ymhen 20 mlynedd, mae ffigurau arwylio amgylcheddol British Nuclear Fuels am chwarter cyntaf 1997 yn datgelu lefelau o Technetiwm 99(Tc99) sydd wedi cynyddu'n frawychus mewn samplau o wymon a gymerwyd ger arforedir gorllewinol Cumbria. Dyma ganlyniad blynyddoedd o ail-brosesu tanwydd niwclear hesb o adweithyddion Magnox (fel Trawsfynydd, Hinkley, Oldbury ac Wylfa).

Efallai nad yw'r mesuriad hwn yn adlewyrchu'r lefelau uchaf a geir ym Môr Iwerddon hyd yn oed, ond mae'n dynodi y bydd lefelau llygredd ymbelydrol wedi codi mewn pob mathau o fwyd môr hefyd.

Mae gan Tc 99 hanner oes ymbelydrol o 213,000 o flynyddoedd. Nid yw'n ddeunydd a geir yn naturiol a bydd yn gwasgaru yn y moroedd dros bellteroedd maith mewn byr amser. Safon Ymyrraeth bresennol yr UE (ar gyfer gwerthu bwydydd llygredig yn sgîl damwain niwclear) yw 1250 Bq/Kg. Mae'r lefelau diweddaraf a gafwyd mewn gwymon ym Môr Iwerddon yn 180,000 Bq/Kg.

### Er mwyn popeth: gwrthwynebwn Trident

Ymgynullodd gweithredwyr diarfogi ym Mharc Elliot Bay, Talaith Washington am hanner dydd ar ddydd Hiroshima eleni i brotestio yn erbyn dyfodiad yr USS Ohio, llong danfor Trident â'i llwyth o 24 taflegryn Trident niwclear. Wrth i'r llong danfor angori, cnuliodd y protestwyr gloch 192 o weithiau i dystio i bresenoldeb y 192 ergyd niwclear ar fwrdd y llong tanfor, bob ergyd unigol yn bum gwaith mwy nerthol na bom Hiroshima.

Cafodd yr Ohio ei chroesawu i'r harbwr gan lynges fechan o gychod Greenpeace, ac ar dir gan weithredwyr o glymblaid eang o fudiadau heddwch. Cynhaliwyd gwylnos barhaol drwy gydol ymweliad y llong danfor â'r porthladd.

Meddai Dave Hall, MD, Llywydd Physicians for Social Responsibility yn yr UD, "Trident sydd ar frig ein gwe o drais. Yn eironig ddigon, cyhoeddodd Cyngor Dinas Seattle mai Awst 6ed fyddai Dydd Heddwch Seattle – mae hyn fel arddangos llong gaethweision ar benblwydd Martin Luther King".

Dwedodd Martin Fleck, o Physicians for Social Responsibility Washington (WPSR):

"Er mwyn ein plant, rhaid i ni Americanaiaid fynd y tu hwnt i'n stâd bresennol o wadu peryglon arfau niwclear."

WPSR, 4554 12th Avenue Northeast, Seattle, WA 98105, UDA.

### Cadw'n wyliadwrus a chwilfrydig: dadgomisiynu SAA Llanisien (Caerdydd)

Mae "asedion anllygredig" o Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Llanisien, lle gwnaed casys ergydion niwclear ers 40 mlynedd bron, wedi cael eu gwerthu a'u

gwasgaru bellach fel rhan o'r broses "Glirio Ôl-weithredol' ar y safle. Bwriedir cludo peirianwaith i SAA Aldermaston hefyd.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wrthi'n ymchwilio i ba raddau y llygrwyd y safle, a pha ddefnydd y gellir ei wneud ohono yn y dyfodol. Mae'r ymchwiliadau hyn yn mynd i gynnwys astudiaeth lawn o hanes y safle a drilio tyllau i ddarganfod hyd a lled y llygredd. Gwneir astudiaethau o fewn cwmpas 3 km i'r safle, sydd yn un o faestrefi Caerdydd. Mae rheolwyr y SAA fel pe baent yn ymwybodol o bwysau'r cyhoedd a allai effeithio ar eu cynlluniau ar gyfer cael gwared o ddeunydd llygredig ac anllygredig o'r safle. Mae hyn yn neges i ymgyrchwyr i fod yn wyliadwrus a chwilfrydig. Beth bynnag fo'r canlyniad ar gyfer y safle, rhaid i ni wneud ein gorau glas i sicrhau diogelwch cenedlaethau sydd i ddod o blant, menywod a dynion sy'n byw yn y cylch.

**GWEITHREDU**

*Peidiwch â phetruso i fynegi pryder wrth Mr. P. Huish, Rheolwr Cyffredinol SAA Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, a Rob West, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Adran Reoli Llygredd, Wood Street, Caerdydd CF1 1NQ.*

## Cludo deunydd niwclear yn yr Almaen – mae'r frwydr yn parhau

Yn gynharach eleni, gwelwyd protest dorfol syfrdanol yn yr Almaen yn erbyn cludo defnyddiau niwclear. Gyda llwyddiant Gorleben i'w calonogi, mae protestwyr yn dal i brofi'r ffaith, pan fo gan weithredu uniongyrchol gefnogaeth trwch y boblogaeth, ei bod yn amhosib ei atal. Adroddodd papur min-nos yn Hambwrg yn ddiweddar bod protestwyr, er gwaetha'r perygl o gyffwrdd â'r cêbl trydan uwch ben, wedi crogi baner uwch law'r ffordd fel protest gyhoeddus iawn yn erbyn taith ddisgwyliedig fflasgiau niwclear ar eu ffordd i La Hague, Ffrainc neu Sellafield.



Ffoto: Michael Probst, Associated Press

# Gwaed ar eu dwylo – rhan Cymru yn y fasnach arfau



Roedd rhai o enwau mwyaf y busnes cynhyrchu arfau byd-eang yn Llandudno yr hydref yma.

Roedd y sylw eang a roddwyd gan y cyfryngau i'r gwrthdystiad y tu allan i'r Ganolfan Gynhadledd newydd yn Llandudno ar fore Hydref yr 8fed yn gymaint o syndod ag ydoedd o galondid i drefnwyr y brotest – Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Dwedwyd wrthym nad ffair arfau oedd y digwyddiad hwn, ond Cynhadledd Offset wedi ei threfnu gan Gymdeithas y Cynhyrchwyr Amddiffyn ac Awdurdod Datblygu Cymru (ADC).

OFFSET yw'r enw a roddir i gytundebau rhyngwladol a gefnogir gan y Llywodraeth yn achos cytundebau amddiffyn. Mae'n gweithio rywbeth fel hyn:

- Os pryna'r Weinyddiaeth Amddiffyn arfau gan gwmni tramor, un o amodau'r cytundeb pwrcasu yw bod y gwerthwr yn prynu nwyddau 'amddiffyn' cyfwerth gan Brydain – gan gefnogi'r fasnach arfau ryngwladol drwy hynny.
- Yn yr un modd, os gwertha cwmni Prydeinig arfau i wlad dramor, bydd yn arwyddo cytundeb i brynu nwyddau gan wlad y pwrcaswr hyd at werth y cytundeb neu hyd yn oed fwy na hynny. Gall hyn fod yn ofynnol cyn cael trwydded i gynhyrchu cyfansodd-rannau penodol neu bwrcasu nwyddau eraill heb fod yn arfau. (Drwy agor y drws i gystadleuwyr tramor, gallai hynny beryglu swyddi yn y wlad hon.)

Mae hon nid yn unig yn fasnach â sôl bendith y Llywodraeth sy'n tynnu gweithwyr i mewn i gylch o farwolaeth a dioddefaint, ond yn ôl ymchwil ddiweddar, nid yw OFFSET yn gall o safbwynt economaidd yn y tymor hir.

Yn Llandudno, galwodd Cymdeithas y Cymod ar ADC i sefydlu Asianataeth Amrywio Gwaith Amddiffyn i Gymru: 'Byddai hyn yn helpu'r 5,000 o weithwyr amddiffyn yng Nghymru drwy asesu marchnadoedd newydd a datblygu cynhyrchion newydd mewn marchnadoedd sy'n datblygu, megis y farchnad garlamus ei thwf ar gyfer cynhyrchion a phrosesau llesol i'r amgylchedd'.

Roedd agoriad Cynhadledd Llandudno i fod yn gyfrinachol wrth i rai o enwau mwyaf y fasnach arfau ymgynnull (Boeing, BMW/Rolls Royce, Lockheed Martin...) Gollyngwyd y wybodaeth i'r wasg 24 awr cyn y digwyddiad ac o'r herwydd, erbyn 8.30am ar y diwrnod agoriadol, roedd papurau-newydd, radio a theledu Cymraeg a Saesneg wedi danfon gohebwyr i gofnodi'r digwyddiad a gweithred y dwsin o brotestwyr a oedd wedi cynnull i ddosbarthu taflenni i'r cannoedd o ddynion (ac un neu ddwy ddynes) ar eu ffordd i mewn i'r Ganolfan Gynhadledd. Roedd llawer o'r cynrychiolwyr yno i drefnu cytundebau arfau proffidiol a chytuno ar delerau OFFSET.

Mae Ann Clwyd AS wedi beirniadu ADC yn hallt am hyrwyddo'r gynhadledd hon. Dywedodd fod rhai o'r cwmnïau oedd yn bresennol yn Llandudno wrthi'n cynhyrchu ffrwydron tir gwrth-bersonÕl, ac yn cyd-gynhyrchu offer arteithio ar gyfer llywodraethau gormesol. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru waed ar ei ddwylo.


Tua 11.30am y bore hwnnw daeth cynrychiolwyr Cymdeithas y Cynhyrchwyr Amddiffyn ac ADC i gyfarfod â'r proteswyr a siarad gyda nhw, gan gytuno i nodi'r gwrthwynebiadau a chyfleu'r sylwadau... pa obaith?

Ond mae'r ffaith bod papurau-newydd Cymraeg a Saesneg wedi para i adrodd ar y brotest fyr-fyfyr bron hon am y 10 diwrnod nesaf yn siwr o fod yn golygu rhywbeth.


Rhoda Jones

**GWEITHREDU**

*Ysgrifennwch at y Cadeirydd, D. Rowe-Beddoe, ADC, Principality House, Heol Tŷ'r Brodyr. Caerdydd CF1 4AA (0345) 775577 neu (01443) 845500.*



# Cofio Helen Thomas



**A** r y 5ed o Awst 1989 roedd menywod y Glwyd Felen yn Greenham wrthi'n brysur yn paratoi i goffàu gollwng y bomiau niwclear cyntaf ar Hiroshima a Nagasaki. Yn eu plith roedd Helen Thomas, Cymraes ifanc. Roedd hi'n ymgorffori'r frwydr dros wrthwynebiad di-drais i arfau niwclear a militariaeth, bob amser yn ei gwthio ei hun i'r eithaf ac yn defnyddio ei mamiaith, y Gymraeg, i ddinoethi gormes. Roedd yn ferch ddewr dros ben â dealltwriaeth dda o'r sefyllfa a ymdaflodd yn ddiarbed i achos cyfiawnder a heddwch i bawb.

Am 1 pm y prynhawn hwnnw, lladdwyd Helen gan gerbyd heddlu yn gyrru'n rhy gyflym wrth iddi sefyll ar ymyl y ffordd, ar ddarn wedi ei farcio'n glir â llinellau nad oedd cerdybau i fod i fynd iddo.

Roedd ei marwolaeth yn golled drasig, nid yn unig i'w theulu ond hefyd i'r holl fudiad heddwch a'r Menywod y Glwyd Felen, y gwnaeth gymaint i gyfoethogi eu bywydau.

Mae Côr Cochion Caerdydd ac CND Caerffili wedi trefnu taith gerdded noddedig o brif glwyd Castell Caerdydd i Gastell Coch, Ffynnon Taf am 11am Ddydd Calan 1998. Gobeithiwn godi digon o arian i osod cofeb i Helen yng ngardd Heddwch y Deml Heddwch, Caerdydd yn y gwanwyn.

Cefnogwch y ffurflen noddi amgaeŠdig, da chi, a/neu ymunwch â ni ar y daith! Cysyllter â Ray Davies (gweler Cysylltiadau).

# Cofio Tân Windscale 1957

**Y** m mis Hydref, cyflawnodd CND Teifi Preseli a Chyfeillion y Ddaear Dyffryn Teifi weithred i goffàu deugain mlwyddiant y tân wraniwm yng ngwaith prosesu niwclear Windscale. Llosgodd y tân yn wyllt a di-reolaeth ym mhentwr atomig rhif 1 a gollwng llwyth anferth o radio nwclidau i'r awyr. Cawsai Windscale ei adeiladu i gynhyrchu plwtoniwm ar gyfer arfau niwclear Prydain. Arbrawf gyda thechnoleg heb ei phrofi oedd yr holl raglen. Cawsai £100 miliwn ei ymrwymo i'r rhaglen heb gymeradwyaeth y Llywodraeth na chydsyniad y boblogaeth mewn cyfnod o galedi a dioddefaint mawr.


Cafodd poblogaeth y rhan fwyaf o Gymru, Lloegr a rhannau o Iwerddon eu llygru gan alldafliad o dân 1957. Mae rhai wedi amcangyfrif y gall fod mwy na 8,000 o bobl ym Mhrydain wedi marw neu'n mynd i farw cyn eu pryd oherwydd tân Windscale. Dim ond yn awr y bydd rhai mathau o gancr ac afiechydon a achoswyd gan yr alldafliad yn datblygu. Doedd nemor ddim monitro ar ymbelydredd ar y pryd, ac roedd anwybodaeth bryd hynny, fel heddiw, yn rhan hanfodol o'r rhaglen arfau niwclear.

Tynodd y coffâd yn Aberteifi sylw at y llygru eang a fu o ganlyniad i'r tân. Hedfanwyd deugain balŵn heliwm du dros y dref i symboleiddio'r alldafliad ymbelydrol, ond nis gollyngwyd. Cafodd y digwyddiad lawer o sylw gan y BBC a phapurau-newydd lleol.

Ar yr 11eg o Hydref, yr un diwrnod â digwyddiad Aberteifi, cyflwynodd Gwersyll Heddwch y Menywod yn Sellafield ddogfen, "Nuclear Secrecy – Not in the Interests of National Security" i heddlu'r Awdurdod Ynni Atomig yn Sellafield (Windscale gynt, cyn ei ail-fedyddio), clymwyd baneri a negeseuon ar y ffens i atgoffa pobl o gyfraniad ofnadwy'r gwaith i'r rhaglen fomiau niwclear. Dywedodd Nigel Chamberlain, Gweithiwr Grŵpiau Heddwch Cumbria a Gogledd Swydd Gaerhirfryn, "Er gwaetha polisi 'agored a gonest' bondigrybwyll y cwmni, mae'n dal yn anodd dros ben casglu gwybodaeth gywir am berthynas British Nuclear Fuels gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, rhywbeth prin y cyfeirir ato yng ngwlad hud weledol Canolfan Ymwelwyr newydd Sellafield".


***Diolch i Paul Hawkes***

## Dyddiadur Heddwch a Chyfeiriadur Byd-eang 1998 Housmans




**M** ae Dyddiadur Heddwch 1998 yn cynnwys dyddiadau a phenblwyddi nodedig a'r Cyfeiriadur Heddwch Byd-eang yn rhestru bron 2,000 o fudiadau mewn 150 o wledydd.


Pris y Dyddiadur yw £5.95 y copi dros y cownter yn y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd, neu £6.95 (yn cynnwys cludiant) yn syth oddi wrth Housmans (gostyngiadau am archebion mawr). Dylech wneud eich siec yn daladwy i Housmans a danfon eich archeb i Housmans Peace Diary, 5 Caledonian Road, Llundain N1, Lloegr.




*David Austin, Guardian*

## Penwythnos o weithredu yn erbyn hedfan isel gan awyrennau milwrol

Cymerodd CND Teifi-Preseli, Rhyddid yr Awyr ac CND Cymru ran mewn penwythnos rhyngwladol o weithredu i alw sylw at yr ymgyrch yn erbyn hedfan isel. Fore Sadwrn, dosbarthwyd taflenni i bobl yn siopa yn Aberteifi, ac arwyddodd llawer o bobl ddeiseb yn erbyn hedfan isel. Gan barhau â'r brotest ddydd Sul, bu ymgyrchwyr o bob rhan o Gymru yn hedfan barcud ar Draeth Pembre. Cafodd y ddau achlysur lawer o sylw yn y papurau-newydd ac ar y teledu.



*Photograph Paul Hawkes*




Ffoto: Myrla Eastland

■ *Menywod Greenham tu allan i Lys y Goron Reading Medi 1997*

## Menywod Greenham yn y Llys

Daeth achos pedair o Fenywod Greenham a gyhuddwyd o dynnu llathenni o ffens i lawr ac achosi £37,000 o ddifrod yn Aldermaston, i ben pan dynnodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei achos yn ôl ym mis Medi. Roedd y menywod wedi hel pentwr anferth o dystiolaeth ynghyd i gefnogi ei honiad bod cyfiawnhad dros eu gweithred oherwydd "troseddu niwclear SAA Aldermaston", yn unol â dyfarniad Llys y Byd. Roedd tystion yn cynnwys Dr Chris Busby, Tony Benn a'r Athro Frank Barnaby yn barod i roi tystiolaeth. Dyfarnwyd costau i'r menywod a chawsant eu torrwyr boltau yn ôl.

Meddai Katrina Howse, un o'r menywod gwreiddiol a gyhuddwyd:

"Ers 16 flynedd rydym wedi bod yn torri ffensys gwersylloedd arfau niwclear a bron bob tro cawsom ein herlyn. Mae hon yn foment hanesyddol am mai dyma'r tro cyntaf i'r erlyniad redeg i ffwrdd. Maen nhw'n ofni y gallai bwrw ymlaen a gwrando ar y dystiolaeth arwain at ddatgan bod arfau niwclear yn anghyfreithlon a chyfiawnhau ein gwethred o dorri ffensys."

Ar Ionawr 5ed bydd achos rheithgor yn erbyn tair menyw arall (Sarah Hipperson, Peggy Walford a Rosy Bremer) ar achos o dorri ffens yn SAA Burghfield.

**# GWEITHREDU**
*Mae'r menywod yn gofyn am gefnogaeth – i fynd i'r llys ym mis Ionawr, ac, yn bwysicaf oll, mae angen cefnogaeth ariannol i dalu costau teithio'r menywod. Gwnewch eich sieciau'n daladwy i "Greenham Women" os gwelwch yn dda a'u danfon at: Yellow Gate, Greenham Common, Berkshire RG 19 6HN. Tel (01635) 269 109 (Peggy Walford)*

## Ffens Comin Greenham yn dod lawr

Ar Fedi'r 13eg cafwyd gwared o ffens gwersyll awyr Comin Greenam yn swyddogol. Dychwelwyd y comin llygredig i Gyngor Newbury gan yr AS lleol, David Rendel. Ni wahoddwyd yr un o fenywod y Gwersyll Heddwch ond, wrth gwrs, fe aethon nhw beth bynnag. Dyma sefydlu gwersyll nesaf at 'marquee' swyddogol (ddim yn debyg iawn i 'bender') a gwylio tra bod gweithwyr y cyngor yn paratoi darn o'r ffens ar gyfer y toriad swyddogol. Sylweddolwyd mai cyn-feiliaid oedd dau o'r gweithwyr! Daeth y pwysigion. Meddai Jean Kaye, un o fenywod Greenham:

"Lwyddodd yr areithiau a ddilynodd yn fwriadol iawn i osgoi son am Wersyll Heddwch y Menywod, a rhaid oedd i ni ychwanegu ein lleisiau at y rheini oedd yn cael y clod am sicrhau adfer y Comin... Roedd rhywbethg bizâr mewn gweld dynion mewn siwtiau yn torri'r ffens – a heb gael eu restio. Roedd yn syndod hefyd i glywed y lefel o elyniaeth sydd yn dal i gael ei gyfeirio at y menywod."

## Dim ehangu NATO – Cynhadledd OSCE amgen Warsaw Gorffennaf 1997

Mynychodd mwy na 100 o bobl o 15 gwlad gynhadledd amgen i gyfarfod Cynulliad Seneddol y Mudiad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE). Roedd y mwyafrif a ddaeth i gymryd rhan ynddi wedi teithio o Helsinki ar fws, gan oedi i gyflwyno theatr stryd ar y ffordd.

Roedd y Gynhadledd Amgen yn cefnogi gwaith yr OSCE, yn enwedig ei waith ym maes hawliau dynol, diogelwch ac atal gwrthdaro, lleihau tensiwn a gweithio i sicrhau atebion an-filwrol i wrthdaro. Fodd bynnag, cymeradwyodd Senedd yr OSCE ehangu NATO tra'r oedd y rhan fwyaf o aelodau'r Gynhadledd Amgen yn gwrthwynebu NATO niwclear-arfog ac yn erbyn ehangu'r corff hwnnw.

Arweiniodd trafodaeth yn y Gynhadledd Amgen am niwtraliaeth ar y syniad o sefydlu rhwydwaith o unigolion a grwpiau yn ymddiddori yn y syniad o niwtraliaeth.

***Diolch i Rae Street***

**# GWEITHREDU**
*Os ydych yn ymddiddori mewn niwtraliaeth, cysylltwch â Mag. Thomas Roithner, Mudiad Awstria dros Niwtraliaeth, Dinghoferstrasse 27, A 4020, Linz, Awstria, ffacs +43 (0) 732-797391. ebost: friedenswerkst.linz@demut.orat. Gellir cysylltu â Rae Street ar (01706) 378043.*




Ffoto – Rae Street

■ *Aelodau o Gynhadledd Amgen OSCE yn Warsaw o'r Ffindir ac Estonia*

## 'Steddfod Genedlaethol y Bala

Diolch o galon i bawb a helpodd yn 'Steddfod Genedlaethol chwilboeth eleni. Creodd rhannu pabell gyda Chymdeithas y Cymod, Gwerin y Coed, ac Atal yr Hawks Gwynedd Babell Heddwch ar y Maes. Roedd rhywbeth fel pe bai'n digwydd o hyd. Coffawyd dyddiau Hiroshima a Nagasaki, danfonwyd cerdyn cyfarch "Tony Blair" anferth wedi ei arwyddo gan bron 1,000 o bobl at Tony Blair drwy law cynrychiolydd y Blaid Lafur ar y Maes, a chafodd gweithred "Llafur Newydd, Gwaed Newydd" ym mhabell y Blaid Lafur gryn sylw ar y cyfryngau.

**# GWEITHREDU**
*Mae gan CND Cymru arddangosfa Trident newydd yn amlinellu'r achos yn erbyn arfau niwclear. Mae copïau o'r arddangosfa ddwyieithog, 16-dalen, maint-A3, ddu-a-gwyn ar gael. Mae fersiwn fwy sgleiniog, lamineiddiedig, fwy o faint ar gael i'w benthyca. Os gellwch drefnu man arddangos, neu os oes gennych syniad ymhle y gellid dangos yr arddangosfa, cysylltwch â Jill Stallard os gwelwch yn dda (gweler y rhestr gysylltiadau).*

# Plant Chernobyl yng Nghymru



Fel rhan o ymweliad â Chymru gan lawer o blant o ardaloedd llygredig Belarus ac Wcraen, daeth grwp o blant yn eu harddegau, bob un ohonyn nhw mewn ysbaid rhag cancr, i ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Gwnaed y faner hardd hon gyda help artistiaid lleol gan yr ymwelwyr ifainc tra buon nhw'n aros yng nghylch Aberystwyth.

## Chernobyl: Afiechydon Meddylion Plant yn cynyddu chwe-gwaith yn Belarus

Cred yr Athro Alexey Yablokov, Cyfarwyddwr Canolfan Rwsia dros Bolisi Amgylcheddol, bod tystiolaeth yn dangos yr effeithiwyd ar iechyd 15% o'r 400 miliwn o bobl yn y cyn-Undeb Sofietaidd gan ddamwain 1986 yn Chernobyl. Mae hyd oes dyn ar gyfartaledd yn y cyn-Undeb Sofietaidd wedi disgyn o 70.1 blwyddyn ym 1982 i 58 rhwng 1992-5; mae gwyriadau genetig wedi cynyddu o 40% a phob math o gancr o 70% yn ystod yr un cyfnod. Mewn un ardal ym Mosgo ni chofnodir yr un rheswm arall am farwolaeth ond marw o gancr.

Mae Yablokov yn ffieiddio'r ffordd mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi gwrthod derbyn effeithiau difrifol Chernobyl. Yn Belarus, mae namau cynhwynol wedi cynyddu'n driphlyg a cheir chwe gwaith yn fwy o afiechydom y meddwl – erbyn hyn mae gan 60% o blant Belarus afiechydon meddyliol.

Ateb yr Athro Yablokov i'r swm anferth fydd ei angen i lanhau'r ddaear yw edrych at y Gyllideb Amddiffyn Fyd-eang. Meddai "Gallai'r gyllideb hon yn hawdd dalu am y Ddaear!"

***Diolch i RadioActive Times***

# Dyddiadau Dyddiadur

**Rhagfyr 1997** Arwyddo Cytundeb Ottawa i wahardd **ffrwydron tir.** Mae'r UD yn galw am 9 mlynedd o oedi cyn gweithredu'r fath waharddaid. Mae're Ymgyrch Ryngwladol i Wahardd Ffrwydron Tir (enillydd Gwobr Heddwch Nobel eleni) wedi dadlau y byddai oedi cyhyd yn golygu 234,000 o ddioddefwyr ychwanegol. Mae Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig wedi cyflwyno deiseb i Tony Blair wedi ei harwyddo gan filoedd o unigolion yn annog y Llywodraeth Brydeinig i weithio i sicrhau gwaharddiad llwyr ar ffrwydron tir. *Mwy o wybodaeth: Gweithgor ar Ffrwydron Tir, 601 Holloway Rd., Llundain N19 4DJ. (0171) 281 6073*

**Rhagfyr 1997** danfonwch gerdyn cyfarch at eich AS yn dymuno iddo/iddi heddwch a blwyddyn newydd ddi-niwclear, a dywedwch wrtho/wrthi mai 1998 yw'r flwyddyn i ddileu Trident! *(d/o Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA).*

**Llun 5 Ionawr 1998** Llys y Goron Reading. **Achos Rheithgor tair menyw** (Sarah Hipperson, Peggy Walford a Rosy Bremer) ar gyhuddiad o dorri ffens yn SAA Burghfield. Mae angen cefnogaeth. Gweler y stori. *Mwy o wybodaeth gan: Yellow Gate, Greenham Common, Berkshire RG 19 6HN. Tel (01635) 269 109 (Peggy Walford)*

**21 Chwefror 1998 11.00am Cyngor CND Cymru.** Ty Cwrdd y Cyfeillion, Stryd y Deml, Llandrindod, Powys. Croeso i bob aelod a chynrychiolydd. *Cysyllter â Jill Stallard am fwy o wybodaeth*

**Mercher 25 Chwefror 1998** Cynhadledd ar Storio Gwastraff **Niwclear, Reading, Berkshire** – cynhadledd undydd a drefnwyd gan y Grŵp Cynghorol Niwclear. Hyd yn oed pe baem yn rhoi'r gorau i gynhyrchu gwastraff niwclear heddiw, mae llwythi ohono'n bod eisoes. Mae angen trafodaeth wybodus yn awr. *Rhagor o wybodaeth gan Pam Vassie (0118) 978 0148*

**Sadwrn 28 Chwefror 1998 Cynhadledd Undydd i alw sylw at y materion niwclear sydd yn berthnasol i Gymru,** gwaith Fforwm yr Ardaloedd Di-niwclear, a'r ymgyrchu sydd yn parhau i gael ei wneud gan grwpiau gwrth-niwclear, heddwch ac amgylcheddol. Manylion pellach i'w cyhoeddi. *Os carech i ni'ch hysbysu am y Gynhadledd, cysylltwch ag CND Cymru, os g. yn dda*

**Mawrth 1998 – Awst 1998 Trident Ploughshares: Gweithred dorfol i ddiarfogi llongau tanfor Trident Prydain.** Os ydych am gymryd rhan neu wybod mwy am y weithred uniongyrchol hon, cysylltwch â: *Trident Ploughshares 2000, 42-46 Bethel Street, Norwich, Norfolk NR2 1NR (01603) 611 953. Mae angen cefnogaeth ariannol hefyd – gwerthfawrogid sieciau – yn daladwy i "Trident Ploughshares" – yn fawr iawn.*

## Llythyr o Siapan

Annwyl Ms Jill Stallard, CND Cymru
Diolch am ddanfon ffotograffau ac erthyglau neis atom. Roedd eich llythyr amgaeŠdig yn llawn gwybodaeth, ysbrydoliaeth a theimlad. Byddwn yn ei gyflwyno gyda rhai ffotograffau yn ein llythyr newyddion nesaf. Rydym yn mawr werthfawrogi'r ffaith eich bod yn danfon cyhoeddiadau atom – pob copi o Heddwch – gyda phawb ohonom yn gweithio gyda'n gilydd, gallwn ddileu niwclear yn y dyfodol agos iawn!

***Heddwch, Yuki Sato, Staff Cyngor Siapan yn erbyn Bomiau A a H.***



■ *'Signing for Peace – in a village'. Tomoe Yabe (1892-1981)*



Syr, Ryn ni wedi darganfod nad oes modd torri'r gyllideb filwrol heb dorri'r gyllideb filwrol

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ____________________


Cyfeiriad ____________________

____________________

____________________ Côd Post ________

Ffôn ____________________ Amgaeaf siec/GP am ________

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.




■ *Eisteddfod Genedlaethol 1997. Y Bala*

# CYSWLLT

## CND CYMRU

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin SA20 OLR Ffon/facs (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP** (01792) 643542

IS-GADEIRYDDION

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN** (01792) 830 330

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close, Y Porth, Rhondda CF39 9DF

HEDDWCH
**Jill Stallard**
Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.

**Am gwyno am awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel? Ffoniwch y Weinyddiaeth Amddiffyn (0171 218 6020)**

# Symud ty?

**Rhowch wybod i ni, da chi, rhag i ni'ch colli chi a'ch cefnogaeth – a rhag i chi golli rhifyn o *Heddwch*.**

**Ysgrifennwch at Yr Ysgrifennydd Aelodaeth, Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN (01792) 830330 i ddiweddaru neu gywiro eich cyfeiriad, os gwelwch yn dda. Diolch!**



# Problemau Anrheg Nadolig?

Pam na roddwch chi danysgrifiad aelodaeth i CND Cymru i'ch ffrindiau a'ch teulu?

Byddai'r fath anrheg yn un hael, yn para'r flwyddyn gron, ac yn gyfraniad rhad ond hynod werthfawr tuag at achub y blaned

... ie, gwnewch, da chi!

Mae arnom angen cymaint o gymorth ag sy'n bosibl, a pho fwyaf o aelodau fydd gennym, cryfaf oll y byddwn!

Defnyddiwch y ffurflen aelodaeth yn *Heddwch*, os gwelwch yn dda, neu cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth â'r manylion (gweler y rhestr Gysylltiadau)

## Cyfraniadau i Heddwch

- Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Heddwch ym mis Chwefror 1998
- Ffoniwch Jill i gael y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf
- Danfonwch eich cyfraniadau at Jill Stallard, os gwelwch yn dda (gweler Cysylltiadau am y cyfeiriad); croeso i gyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur neu ebost. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (**01222 395453** ebost **production@capricorn55.u-net.com**) am fanylion.
- Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob cymorth gyda'r gwaith golygu.
- Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Rhif 15